**GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (CAU LLWYBR TROED DROS DRO) (LLWYBR 16 LLANGYNWYD ISAF) 2025**

**RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN** fod y Cyngor fel yr Awdurdod Priffyrdd dros Langynwyd Isaf gan arfer ei bwerau o dan Adran 14(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) yn bwriadu o fewn dim llai na 7 diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad hwn gwneud Gorchymyn fydd yn cau'r llwybr troed dros dro fel yr eglurir yn yr atodlen isod. Mae'r Gorchymyn yn angenrheidiol er budd diogelwch y cyhoedd o ganlyniad i gynnal archwiliad yn ddiweddar ar y llwybr troed pan nodwyd bod difrod helaeth i'r grisiau ar y rhan honno o Lwybr Troed 16 Llangynwyd Isaf, ac fel y cyfryw ei bod yn anniogel i'r cyhoedd ei defnyddio. Ni fydd yn bosibl gwneud yr atgyweiriadau sy'n ofynnol yn ystod y cyfnod cau brys ac felly bydd rhaid cael cyfnod cau dros dro pellach er mwyn cyflawni'r gwaith angenrheidiol.

**Atodlen**

Y rhan honno o Lwybr Troed 16 Llangynwyd Isaf o'i gyffordd â'r A4063, pwynt sydd tua 83 metr i'r de o'r eiddo a adwaenir fel 1 Box Cottages, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain a'r gogledd yn gyffredinol am oddeutu 112 metr at gornel de-ddwyreiniol yr eiddo a adwaenir fel 1 Riverside Cottages.

Daw y Gorchymyn i rym ar 22/05/2025 a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o chwe mis ar y mwyaf neu nes y bydd y gwaith wedi ei gwblhau, p'un bynnag fydd y cyntaf.

Ni fydd y cyfyngiadau'n weithredol, fodd bynnag, ond ar y cyfryw amser ac i'r cyfryw raddau ag y dangosir o bryd i'w gilydd gan arwyddion traffig a ragnodir gan Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016.

Y llwybr amgen os byddwch yn teithio i gyfeiriad y gogledd yw ar hyd y llwybr troed ger yr A4063 i gyfeiriad y gogledd gogledd-orllewin a'r gogledd gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am oddeutu 220 metr hyd at ei gyffordd â Llwybr Troed 16 Llangynwyd Isaf ac i'r gwrthwyneb.

Dyddiedig: 12/05/2025

K Watson, Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddiol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB
K Watson, Chief Officer - Legal, HR & Regulatory Services, Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB